

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	12 MEHEFIN 2012
TEITL YR ADRODDIAD:	YSTYRIED CWYN A CHYNNAL GWRANDAWIAD YN ERBYN Y CYNGHORYDD HEFIN WYN THOMAS YN DILYN YMCHWILIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (YR OMBWDSMON)
ADRODDIAD GAN:	CYFREITHIWR Y SWYDDOG MONITRO
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I GYNNAL GWRANDAWIAD A PHENDERFYNU PA GOSB, OS O GWBL, I WEITHREDU ARNI DAN BARAGRAFF 9(1) RHEOLIADAU YMCHWILIADAU LLYWODRAETH LEOL (SWYDDOGAETHAU SWYDDOGION MONITRO A PHWYLLGORAU SAFONAU) (CYMRU) 2001
SWYDDOG CYSWLLT	MEIRION JONES CYFREITHIWR Y SWYDDOG MONITRO (ESTYNIAD 2563)

DOGFENNAU SYDD WEDI EU HAMGÁU

- 1 Adroddiad yr Ombwdsmon
2. Dull yr Ombwdsmon o “Ymdrin â Chwynion Newydd”
3. OS 2001 Rhif. 2281 (W.171)
4. Datganiad Einir Wyn Thomas

1 CEFNDIR

Mae'r Ombwdsmon wedi ymchwilio i gŵyn am y Cynghorydd Thomas, a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Thomas ei hun, ei fod efallai wedi methu â glynu wrth Gôd Ymddygiad y Cyngor Sir ar gyfer Aelodau pan gafwyd ef yn euog o dramgwydd troseddol ar 12 Ebrill 2011.

2 GWRANDAWIAD DECHREUOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Yn unol â'r opsiynau a ddarperir dan **Ddogfen 3** uchod penderfynodd y Pwyllgor Safonau ar 4 Mai 2012 y dylid rhoi cyfle i'r Cynghorydd Thomas wneud sylwadau, un ai ar lafar neu yn ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac

unrhyw honiad y gallai, o bosib, fod wedi methu â chydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir.

3 ADRODDIAD YR OMBWDSMON A CHASGLIADAU – Dogfen 1

- 3.1 Mae'r dyfyniad perthnasol ym mharagraff 45: "My provisional finding was that there was evidence that Councillor Thomas may have breached the Code of conduct for Members in relation to paragraph 6(1)(a) of that Code in that he incurred a criminal conviction on the 14th April 2011 ..."
- 3.2 Mae gweddill Adroddiad yr Ombwdsmon yn egluro pam iddo benderfynu cyfeirio ei Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau, ond nid yw'n cael effaith ar ei gasgliad amodol mewn perthynas â thorri'r Côd.
- 3.3 Gan hynny, mae'r Ombwdsmon wedi darganfod tystiolaeth o fethiant gan y Cynghorydd Thomas i gydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir ac yn arbennig paragraff 6(1) "Rhaid i chi –
- (a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;" Rhaid i'r Pwyllgor Safonau felly wneud penderfyniad.

4 GORCHWYLION PWYLLGOR SAFONAU

Yn unol ag adran 69(4)(c) o Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mae'r Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater hwn yn ôl i'r Pwyllgor Safonau lleol i'w benderfynu yn dilyn paragraff 9(1)(b) neu (c) neu (d) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Mae copi o'r rhan berthnasol o'r offeryn statudol i'w weld yn **Dogfen 3**.

Y penderfyniadau posibl sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau yw:

- ni ddylid gweithredu o gwbl yn erbyn y Cynghorydd neu
- bod y Cynghorydd yn cael ei geryddu; neu
- fod y Cynghorydd yn cael ei wahardd, neu ei wahardd yn rhannol, o fod yn Aelod o'r Cyngor Sir am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis.

Caniateir i'r Cynghorydd wneud sylwadau yn llafar os yw'n dymuno. Mae'r Cynghorydd Thomas wedi dweud y bydd yn cael ei gynrychioli gan Mr Gareth Parry, ei gyfreithiwr. Mae wedi datgan nad yw'n bwriadu anghytuno â'r ffeithiau ganfyddwyd gan yr Ombwdsmon na honni yw'n gyfrifol am beidio cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cyfarwyddo bod angen mwy o wybodaeth ac eglurhad ynglŷn â modd y taliadau a wnaethpwyd gan y Cyngor i'r Cynghorydd Thomas ynglŷn â lwfansau ac yn y blaen ac unrhyw ddiodyniadau. Cafwyd ddatganiad gan Einir Wyn Thomas Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y Cyngor a

gyflwynir hwnnw nawr fel **Dogfen 4.**

Wedi derbyn y cyflwyniadau, fe'ch cynghorir i ymneilltuo i sesiwn breifat i ystyried pa gosb, os o gwbl, sy'n briodol. Gall y Pwyllgor ailymgynnull yn syth wedyn neu ar ddyddiad arall i'w bennu, er mwyn cyhoeddi ei benderfyniad yn gyhoeddus. Gellir rhoddi rhesymau llawn bryd hynny neu wedi hynny ar bapur. Fel arall, gall y Pwyllgor roi ei benderfyniad a'i resymau ar bapur ar ddyddiad arall yn y dyfodol. Bydd y Gofynion sy'n berthnasol i Gyhoeddiadau Statudol y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 yr Adroddiad hwn yn berthnasol ym mhob amgylchiad ac ni fydd yr amserlen ar gyfer Apêl y cyfeirir ati ym mharagraff 5 yr Adroddiad hwn yn cychwyn rhedeg hyd oni fydd y Cynghorydd wedi derbyn y penderfyniad a'r rhesymau amdano.

Er na chyfyngir ar y Pwyllgor wrth iddo wneud ei ddewis, mae ei benderfyniad yn parhau i gael ei reoli gan yr egwyddorion cyffredinol o fod yn rhesymol ac yn gymesur.

Er mai dyma'r tro cyntaf y gofynnwyd i'r Pwyllgor cyfredol ystyried cosb o dan y Ddeddfwriaeth bresennol, y mae disgwyl y bydd cysondeb a thegwch i'w weld rhwng y mater hwn a rhai eraill y gellir gofyn i'r Pwyllgor efallai eu penderfynu yn y dyfodol. Mae angen i'r Pwyllgor ystyried sut y dylid gosod nodweddion yr achos hwn yn fwyaf priodol ar raddfa'r penderfyniadau sydd ar gael.

Yn dilyn ystyried yr holl gyflwyniadau, mater i'r Pwyllgor benderfynu arno fydd pa ffactorau sydd yn lleihau ac / neu yn gwaethygu pethau ddylid eu hystyried a faint o bwysigrwydd i'w roi i bob un. Fe ddylid cynnwys y materion hyn yn y penderfyniad a gyhoeddir gan y Pwyllgor.

5 HAWLIAU APÊL / HERIO

- Mae gan y Cynghorydd yr hawl i apelio i'r Panel Dyfarnu dros Gymru a rhaid gwneud hynny'n ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod. Rhaid rhoddi Rhybudd i'r Panel Dyfarnu dros Gymru, Llawr Cyntaf, Adain y Gogledd (M08), Panel Dyfarnu Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
- Rhaid i'r rhybudd apêl ddatgan seilliau'r apêl a chadarnhau os yw'r apeliwr yn cydsynio i'r apêl gael ei chynnal ar ffurf sylwadau ysgrifenedig yn unig.
- Mae'r hawl i apelio yn ymestyn i'r math o gosb ac/neu hyd unrhyw gosb a osodir.
- Nid oes gan yr Achwynwyr yr hawl gyfatebol i wneud apêl. Byddai raid i unrhyw her fod trwy Adolygiad Barnwrol i'r Uchel Lys.

6 GOFYNION CYHOEDDI STATUDOL

- Wedi i un ar hugain o ddyddiau (y cyfnod apêl) fynd heibio, a chyn diwedd un deg pedwar o ddyddiau wedi hynny, mae angen i'r Pwyllgor Safonau adrodd ar ei benderfyniad yn ysgrifenedig i'r Ombwdsmon, i'r Cynghorydd ac i'r Achwynwyr.

- O fewn saith diwrnod i adrodd ar y penderfyniad wrth yr Ombwdsmon rhaid rhoddi rhybudd cyhoeddus, trwy hysbyseb yn y wasg yn lleol, yn cadarnhau fod copïau o'r penderfyniad ar gael ar wefan y Cyngor, ac yn ei swyddfeydd i'w weld am gyfnod o un diwrnod ar hugain.

7 ARGYMHELLIAD

I gynnal gwrandawriad a phenderfynu pa gosb, os o gwbl.